CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH

21 Tachwedd 2023, Trwy Zoom am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Williams, S Jones, E Williams, C McGregor, D ap Rhobert, A Williams, R Hughes, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Wyn, N Dafydd (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Williams. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng S Jones eitemau 5.1 a 5.3
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17.10.23. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng A Williams yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Llwybrau cyhoeddus** – Mae gwaith wedi dechrau ar llwybr capel - Sein Fawr. Mae angen atgyweirio'r gamfa ar lwybr Cefn Poeth Bach. Bydd y Clerc yn cyfeirio hyn at y Cyngor Sir.
4.2	**Arwyddion yn y gilfan ger y sgwâr** – Nid yw'r gwaith wedi'i wneud. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am ddiweddariad.
4.3	**Arwydd Ffordd yn fflachio** – Mae'r Clerc wedi archebu'r golau. Mae hefyd wedi cysylltu â'r Cyngor Sir. Maen nhw wedi cynnig codi postyn a byddan nhw'n codi'r golau a'i gysylltu â thrydan.
4.4	**Gor-yrru Talwrn** - Nid yw'r Clerc wedi derbyn ymateb i ail wahoddiad i'r Heddlu fynychu cyfarfod o'r cyngor. Cysylltodd y Cyng S Jones â Rhingyll Howell Owens yn ystod cyfarfod heno a chafwyd ymateb yn nodi y bydd yn holi pam na chafwyd ymateb. Cynigiodd y Cyng R Hughes hefyd gysylltu â Rhingyll Owens. Dywedodd y Cyng D Rees ei bod yn siomedig nad yw'r Heddlu yn cysylltu â'r Clerc. Bydd yn anfon manylion cyswllt yr arolygydd ardal at y Clerc er mwyn iddo gysylltu â hi.
4.5	**Seddi gwâg** - Mae'r Clerc wedi hysbysebu'r seddi gwag ar Facebook ac wedi gosod hysbysiadau yn y gymuned. Nid yw wedi cael unrhyw ymateb. Cynigiodd y Cyng W Williams osod yr hysbyseb ar dudalennau lleol eraill ar Facebook.
4.6	**Eglwys Sant Caian** - Mae'r Clerc wedi cael "arwydd dim cŵn" ac wedi ei ddosbarthu i warden yr eglwys
4.7	**Cerbydau yn gwrthod ildio yn Talwrn**. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir i ofyn a fyddan nhw'n ystyried gosod arwydd "ildio".
	Llofnod…….Cadeirydd 16.01.24

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	LBC/2023/3 Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer trosi adeiladau allanol i llety gwyliau yn Tyn Llan, Ffordd Talwrn Road, Talwrn – dim sylwadau
5.2	FPL/2023/174 Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar gyfer storio gwellt, gwair a peiriannau ynghyd a creu menage yn Llidiart, Twrcelyn, Llangefni – dim sylwadau
5.3	VAR/2023/66 Cais o dan Adran 73 ar gyfer amrywio amod (01) (Rhaid i'r datblygiad ddechrau o fewn 5 mlynedd o'r dyddiad cymeradwyo) o'r cyfeirnod caniatâd cynllunio 23C280L (trosi adeiladau allanol yn 11 uned wyliau, ynghyd â gosod ffatri trin pecyn a gwella i'r fynedfa bresennol) er mwyn caniatáu 5 mlynedd arall i ddechrau datblygu ar dir cyfagos i Plas Llanfihangel, Capel Coch, Llangefni – dim sylwadau
	Priffyrdd
5.4	Golau fflachio – gweler 4.3
5.5	Cau Ffordd dros dro – Brynteg – Maenaddwyn – gwybodaeth yn unig.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Prosiect Maen Hir - Ymgynghoriad. Bydd aelodau yn cyfeirio unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar y mater at y Clerc erbyn 04.12.23
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Signs & Design (arwydd dim cwn) £42.00
7.2	Pandora Technologies (golau fflachio) £3468.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Japanese Knotweed - Mae'r Clerc wedi derbyn neges gan Ysgrifennydd Neuadd Bentref Talwrn yn dweud fod knotweed yn tyfu eto ger y cae chwarae. Mae'r Clerc yn ceisio cael cwmni i'w drin.
8.2	Ffosydd ar ffordd yr ysgol - Mae problemau gyda gorlifiad dŵr yn parhau ar ffordd yr ysgol. Bydd y Clerc yn cyfeirio'r mater at y Cyngor Sir
8.3	Sgaffaldiau ym Maenaddwyn - Cytunwyd i ohirio hyn tan y cyfarfod nesaf
8.4	Dŵr yn casglu ar y gyffordd i B5110 - Dywedodd y Cyng A Williams nad yw'r broblem cynddrwg ag y bu. Os bydd yn gwaethygu, bydd yn cysylltu â'r Clerc
	Llofnod……..Cadeirydd 16.01.24

8.5	Maes carafanau newydd gyda mynedfa mewn man peryglus - Mae pryder ynglŷn â mynedfa/allanfa i'r eiddo. Mae'r Cynghorydd A Williams wedi cyfeirio'r mater at y Cynghorydd Sir Non Dafydd ac yn aros am ymateb.
8.6	Penderfyniad cynllunio ar Esgobaeth Bran - Cynigiodd y Cyng D Rees wneud ymholiadau ynghylch y penderfyniad ar y cais hwn
8.7	Penderfyniad cynllunio ar Parc Talwrn - Cynigiodd y Cyng D Rees wneud ymholiadau ynghylch y penderfyniad ar y cais hwn
8.8	Cais i brynu llain ym mynwent Llanddyfnan - Mae'r Clerc wedi derbyn cais i brynu 2 llain ymlaen llaw ym mynwent Llanddyfnan. Mae'r ymgeisydd yn dymuno eu gosod ar yr ochr dde wrth fynd i mewn i'r fynwent. Cytunwyd i dderbyn y cais. Cytunwyd hefyd bod rhaid i ymgeiswyr ddilyn y datganiad ar y cytundeb sy'n nodi bod rhaid agor lleiniau o fewn 6 wythnos i'w prynu. Os na chaiff ei agor o fewn 6 wythnos, bydd yr ymgeiswyr yn cael 3 mis. Os na chânt eu hagor o fewn 3 mis, ni fydd y lleiniau ar gael iddynt mwyach ac ni fydd ad-daliad o'r ffi prynu.
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 16.01.24